Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr,

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg, a ddangosodd ostyngiad pellach yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn y sir, cynhaliodd Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg weithdy i drafod y sefyllfa. Fe fydd Cyngor Sir Gâr yn cyhoeddi Strategaeth Hybu 5 mlynedd newydd yn deillio o waith y Fforwm yn gynnar yn 2023, ond yn y cyfamser mae'r Fforwm yn ymwybodol iawn fod yn rhaid i ni weithredu er budd y Gymraeg ym mhob maes polisi os ydyn ni am adfer sefyllfa'r Gymraeg fel iaith fyw yn Sir Gaerfyrddin. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol yn nodi 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' fel un o'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ac rydyn ni fel Fforwm yn awyddus iawn i weld hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yng Nghynllun Llesiant Sir Gâr.

Gofynnwn i chi'n daer felly i gyflwyno amcan benodol am lesiant y Gymraeg yn y Cynllun Llesiant gan sicrhau fod y cynllun yn cyd-gordio gyda Strategaeth Hybu'r Gymraeg (y mae nifer o gyrff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn aelodau ohono), sydd â'r nod o 'Anelu at adfer y Gymraeg yn brif iaith y sir'. Byddai gwneud hyn yn golygu fod y Cynllun yn cyd-fynd gyda amcan y llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu'r defnydd o'r Gymraeg, ac fe fyddai'n cyd-fynd gyda nod y Ddeddf Llesiant yn ogystal.

Deallwn wrth gwrs y bydd ystyriaeth o bwysigrwydd yr iaith o dan nifer o'r amcanion eraill, ond credwn fod penderfyniad i beidio a gwneud hyrwyddo'r Gymraeg yn amcan allweddol yn ei hawl ei hun yn danfon arwydd clir nad yw'n un o'r materion mwyaf sylfaenol bwysig.

Edrychwn ymlaen fel Fforwm i dderbyn eich ymateb fel Bwrdd.

Yn Gywir,

Meri Huws

**Cadeirydd Annibynnol Fforwm Sirol Strategol y Gymraeg Sir Gâr**

**Copi at:** Jeremy Miles AS, Y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg a Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**(Aelodau'r Fforwm:** Uned y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Canolfan Cymraeg i Oedolion, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Uned Gymraeg Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Coleg Sir Gâr, Uned gyfathrebu ac ymgysylltu Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Uned y Gymraeg Heddlu Dyfed Powys, Cymdeithas yr Iaith, Tîm Polisi a Phartneriaeth Cyngor Sir Gâr, Dyfodol i'r Iaith, Yr Egin, Yr Atom, Menter Dinefwr, Menter Cwm Gwendraeth Elli, Menter Gorllewin Sir Gâr, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin / Cymraeg i Blant, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, S4C, Urdd Gobaith Cymru).